# Paratoi a gorffen seigiau salad a ffrwythau syml

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chyflwyno seigiau salad a ffrwythau, er enghraifft:
• saladau ffrwythau
• saladau llysiau
• saladau ffacbys a ffa

Mae’r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a’r sgiliau technegol y mae eu hangen i baratoi a gorffen seigiau salad a ffrwythau syml; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i’r rôl ac i’r sefydliad, ar y cyd â’r sgiliau a’r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:
• Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
• Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
• Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
• Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau’r safon hon, byddwch chi’n gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i:
• Baratoi a gorffen seigiau salad a ffrwythau syml

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio’r cynhwysion i sicrhau eu bod yn addas i’w paratoi
2. Dewis yr offer, y cyllyll a’r cyfarpar cywir i baratoi a gorffen salad a ffrwythau
3. Defnyddio’r offer, y cyllyll a’r cyfarpar yn gywir wrth baratoi a gorffen salad a ffrwythau
4. Paratoi’r cynhwysion yn gywir ar gyfer y saig
5. Cyflwyno’r saig i fodloni gofynion
6. Storio unrhyw eitemau wedi’u paratoi na fyddant yn cael eu defnyddio ar unwaith yn unol â rheoliadau diogelwch bwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Sut i storio salad a ffrwythau cyn eu paratoi
2. Beth ddylech chi chwilio amdano i sicrhau bod pob math o salad, ffrwyth a chynhwysion eraill yn addas i'w defnyddio
3. Pam dylech chi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r salad, y ffrwythau neu'r cynhwysion eraill, ac i bwy
4. Yr offer a'r cyfarpar cywir ar gyfer y dulliau paratoi
5. Pam mae'n bwysig defnyddio'r offer a'r cyfarpar cywir
6. Sut dylech chi gyflawni'r dulliau paratoi yn gywir
7. Y gofynion storio cywir ar gyfer seigiau salad a ffrwythau syml na fyddant yn cael eu bwyta ar unwaith

Paratoi a gorffen seigiau salad a ffrwythau syml

## Cwmpas/Ystod

**1. Cynhwysion**

1.1 ffrwythau wedi'u rhewi
1.2 ffrwythau ffres
1.3 salad ffres
1.4 ffrwythau wedi'u paratoi
1.5 salad wedi'i baratoi

**2. Paratoi trwy**

2.1 blicio
2.2 tocio
2.3 golchi
2.4 mwydo
2.5 torri
2.6 cymysgu
2.7 sesno
2.8 rhannu'n ddognau
2.9 cyflwyno

PPL1PC5

Paratoi a gorffen seigiau salad a ffrwythau syml

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL1PC5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Coginio Proffesiynol, Cynhyrchu a Choginio Bwyd |
| **Geiriau Allweddol** | paratoi, gorffen, salad, ffrwythau |